

Gofynwch am:

Ffôn:

E-Bost:

Ein Cyf:

Eich Cyf:

Dyddiad:

23 Mehefin 2021

Annwyl Rieni/Warcheidiaid

Wrth inni agosáu at ddiwedd y flwyddyn academiaidd, ysgrifennaf i ddiolch ichi am gefnogi addysg eich plentyn. Mae ein hysgolion wedi parhau i addysgu mewn blwyddyn heriol arall.

Gallaf gadarnhau bod cyngor Llywodraeth Cymru ar wisgo gorchuddion wyneb mewn ysgolion yn aros yr un fath tan ddiwedd y tymor ar 16 Gorffennaf. Mae'r mesurau rheoli mewn ysgolion ar gyfer Covid-19 a'i amrywiadau yr un fath â'r arfer.

Rydym yn gwybod ein bod yn disgwyl cyfnod arall o fwy o achosion yn y gymuned a bod angen brechiadau o hyd i atal unrhyw straen ar ysbytai a phobl agored i niwed.

Yn Abertawe, rydyn ni'n dechrau gweld mwy o ddisgyblion yn gorfod hunan-ynysu eto. Mewn ysgolion uwchradd, gall hyn olygu bod grwpiau blwyddyn gyfan yn colli allan ar fynychu ein hysgolion. Mae angen eich cefnogaeth arnom o hyd i ddal ati i ddysgu mewn ysgolion rhwng nawr a diwedd tymor.

Hoffem dynnu sylw at y pwyntiau allweddol canlynol:

- Mae pob ysgol yn dal i weithredu gydag asesiadau risg fel y buont am y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw'r mesurau rheoli mewn ysgolion wedi cael eu codi na'u llacio. Parchwch reolau'r ysgol gan y byddant yn wahanol i reolau'r cyhoedd.
- Os yw'ch plentyn yn sâl ac os oes ganddo unrhyw un o'r prif symptomau (tymheredd uchel, peswch newydd, parhaus neu golled neu newid i'w synnwyr arogli neu flas), dylent aros gartref a threfnu prawf Covid-19.
- Mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn sicrhau bod profion ar gael i unigolion sy'n profi ystod ehangach o symptomau fel blinder, myalgia (poenau yn y cyhyrau), dolur gwddf, cur pen, trwyn yn rhedeg, cyfog, chwydu neu ddolur rhydd. Gofynnir i unigolion ystyried cymryd prawf os ydyn nhw'n profi unrhyw un o'r symptomau ehangach hyn ac eu bod nhw'n symptomau newydd, parhaus a/neu anghyffredin iddyn nhw.
- Nid oes gofyniad cyfreithiol i unigolion sy'n cymryd prawf oherwydd y symptomau ehangach eraill hyn hunan-ynysu wrth aros am ganlyniad eu prawf. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd Iechyd Lleol yn annog yr unigolyn dan sylw i hunan-ynysu wrth iddynt aros am ganlyniad eu prawf, a dylai plant ac oedolion â dolur rhydd a/neu

chwydu aros i ffwrdd o'r ysgol neu leoliad nes eu bod yn rhydd o symptomau am 48 awr hyd yn oed os yw eu prawf COVID-19 yn negyddol.

- Yn ogystal - oni bai ei fod yn datblygu un o'r tri phrif symptom - nid oes rhaid i aelwyd yr unigolyn hunan-ynysu. Os yw unigolion wedyn yn derbyn canlyniad COVID-19 positif, yna rhaid iddyn nhw a'u haelwyd hunan-ynysu.
- Anogir pob plentyn i olchi ei dwylo'n rheolaidd gyda sebon a dŵr trwy gydol y dydd / sesiwn. Mae glanweithydd dwylo ar gael mewn ysgolion a dylid ei ddefnyddio.
- Bydd dysgwyr sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn derbyn taliadau bob pythefnos / parseli bwyd trwy gydol gwyliau haf yr ysgol (mae hyn yn cynnwys Blynyddoedd 11 a 13).

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, mae ymdrech ar y cyd pob aelod o staff yn ein hysgolion wedi bod yn anhygoel.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n hysgolion i sicrhau eich bod chi a'ch plant yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch pan ddychwelwn i'r ysgol ym mis Medi.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir



Helen Morgan-Rees
Cyfarwyddwr Addysg